

**Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd**  
**Pencadlys yr Heddlu**  
**14 Awst 2019**

**COFNODION**

**Yn bresennol**

<b>Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>• Emma Wools – Cadeirydd (EW)</li><li>• Helen Bennett (HB)</li><li>• Michelle Cooper (MC)</li><li>• Paula Hardy (PH)</li><li>• Hannah Jenkins-Jones (HJJ)</li><li>• Lee Jones – (LJ)</li><li>• Sarah Mahon (SM)</li><li>• Jackie Trow (JT)</li></ul>	Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Ymgynghorydd Iechyd Meddwl Swyddog Polisi Arweinydd Strategol ar gyfer Bregusrwydd Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb (Dros Dro) Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
<b>Heddlu De Cymru</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>• Y Prif Uwch-arolygydd Phil Ashby (PA)</li><li>• Yr Uwch-arolygydd Jason Davies (JD)</li><li>• Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jonathan Drake (ACCJD)</li><li>• Yr Uwch-arolygydd Ceri Hughes (CH)</li><li>• Y Dirprwy Brif Gwnstabl Richard Lewis (RL)</li></ul>	

**1. Croeso a Chyflwyniadau**

1.1 Croesawodd EW aelodau'r bwrdd i'r cyfarfod at wraidd y mater, a diolchodd i'r swyddogion arweiniol am ddod iddo.

**2. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir. Nododd RL, ers y drafodaeth ar bwerau stopio a chwilio Adran 60 yn y cyfarfod diwethaf, fod Llywodraeth y DU wedi ymestyn pwerau diwygiedig Adran 60 i bob un o'r 43 o heddluoedd.

2.2 Dywedodd EW wrth y bwrdd y byddai diweddariadau yn erbyn y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod uwchgyfeirio ym mis Medi yn cael eu trafod yn ffurfiol yn y cyfarfod uwchgyfeirio nesaf ym mis Medi.

**3. Pwnc at Wraidd y Mater – Stelcio, Aflonyddu a Rheolaeth drwy Orfodaeth**

3.1 Estynnodd EW gwahoddiad i HJJ roi trosolwg o'r adroddiad ar Sicrwydd Busnes a gyflwynwyd gan dîm y Comisiynydd. Dywedodd HJJ wrth y bwrdd fod yr adroddiad yn

seiliedig ar amrywiaeth o safbwyntiau a ddarparwyd gan ddiodefwyr, asiantaethau partner a phwyntiau cyswllt unigol stelcio ac aflonyddu Heddlu De Cymru.

- 3.2 Nododd HJJ ganfyddiadau allweddol o'r astudiaethau achos dienw a ddarparwyd gan Ffocws Dioddefwyr. Er bod enghreifftiau o arferion da yn yr adroddiad, nododd nifer o'r achosion bryderon gan ddiodefwyr ynghylch arferion yr heddlu. Nododd HJJ broblemau cyson lle roedd diodefwyr wedi mynegi anfodlonrwydd â'r diffyg cyswllt a diweddariadau gan swyddogion. Roedd yn amlwg bod hyn wedi cael effaith ar brofiadau diodefwyr.
- 3.3 Roedd yn ymddangos bod un astudiaeth achos yn benodol yn nodi pryderon am ddiffyg cyswllt ar ôl uwchgyfeirio pryder a gofid y diodefwyr. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i ymchwilio i'r achos er mwyn ystyried unrhyw bryderon presennol ynghylch diogelu.
- 3.4 Cyfeiriodd HJJ at yr adborth a gasglwyd gan asiantaethau partner lleol, a gasglwyd drwy arolwg ar-lein. Nododd nifer o bartneriaid fod angen i ddiodefwyr gael mwy o wybodaeth am yr hyn y gallent roi gwybod i'r heddlu amdano, ynghyd â sicrwydd y byddai rhywun yn gwrandao arnynt ac yn eu cymryd o ddifrif. Yn benodol, roedd llai o ddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o reolaeth drwy orfodaeth. Nododd HJJ ymatebion i'r arolwg a gyfeiriodd at bryderon ynghylch y ffaith nad oedd pwyntiau cyswllt yn gofyn i ddiodefwyr am reolaeth drwy orfodaeth. Roedd cwestiynau wedi codi ynglŷn â ph'un a oedd cyfleoedd i ystyried cyhuddiadau eraill wedi'u colli.
- 3.5 Hefyd, mynegodd nifer o bartneriaid bwysigrwydd rhannu achosion llwyddiannus a oedd yn dangos bod camau wedi'u cymryd, bod diodefwyr wedi'u cefnogi a bod y diodefwyr wedi'i erlyn. Nododd HJJ adborth tebyg i'r cyfarfod at wraidd y mater ynghylch troseddau casineb, lle byddai mynd ati i rannu straeon newydd cadarnhaol yn helpu i ennyn hyder i roi gwybod i'r heddlu am droseddau casineb.
- 3.6 Nodwyd bod angen dealltwriaeth well ar rai swyddogion o fregusrwydd emosiynol mewn perthynas â stelcio, aflonyddu a rheolaeth drwy orfodaeth. Roedd yr angen i ddeall yr effaith emosiynol ar ddiodefwyr weithiau'n cael ei anwybyddu wrth ddilyn prosesau gweithredol. Cafodd hyn ei adleisio gan y pwyntiau cyswllt unigol stelcio ac aflonyddu, a oedd teimlo bod angen rhagor o hyfforddiant ar gymryd datganiadau a chasglu tystiolaeth, fel y gallai swyddogion wella'r broses o nodi'r effaith emosiynol ar ddiodefwyr.
- 3.7 Nododd HJJ rai o'r pwyntiau a godwyd gan swyddogion a staff. Teimlai'r gweithgor stelcio ac aflonyddu yn benodol nad oedd gan staff ddealltwriaeth gystal o ddigwyddiadau stelcio ac aflonyddu nad ydynt yn gysylltiedig â cham-drin domestig ac nad oedd y digwyddiadau hyn yn cael eu cydnabod gystal ganddynt. Roedd pryderon hefyd y gallai diodefwyr risg is neu risg safonol 'lithro drwy'r rhwyd'.
- 3.8 Teimlai nifer o'r pwyntiau cyswllt unigol fod eu rôl yn werthfawr a'i bod yn hysbys ar y cyfan ar draws yr Unedau Rheoli Sylfaenol. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i hyrwyddo'r hyn y gallent ei gynnegi.

- 3.9 Nodwyd bod y gweithgor yn effeithiol o ran mynd ati i adolygu enghreifftiau o achosion diweddar Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd yn glir sut roedd yr hyn a ddysgwyd mewn perthynas â'r penderfyniadau a wnaed yn cael ei rannu ar draws yr heddlu. Cyfeiriodd HJJ hefyd at enghraifft o achos cadarnhaol lle cafodd penderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron i beidio â chymryd camau pellach mewn perthynas ag achos o stelcio ac aflonyddu ei herio gan swyddog. O ganlyniad i'r her hon, cafodd y penderfyniad ei wrthdroi. Nododd HJJ y byddai hyn yn enghraifft dda i'w rhannu â swyddogion. Cadarnhaodd JD fod angen i'r pwyntiau cyswllt eu hunain rannu gwersi a ddysgwyd. Awgrymodd y gallent gael eu cefnogi gan yr adran Gyfathrebu a'u Hunedau Rheoli Sylfaenol.
- 3.10 Cyfeiriodd HJJ at rai o'r sylwadau a godwyd yn adroddiad yr Arolygiaeth ar 'ymateb yr heddlu i gam-drin domestig'. Nododd yr adroddiad rai materion allweddol y byddai'n fuddiol iawn eu nodi at ddiben y cyfarfod at wraidd y mater. Ymhlith y rhain roedd gwelliannau i ddealltwriaeth swyddogion o dechnegau rheolaeth drwy orfodaeth, gwella'r broses o nodi dioddefwyr mynych, a phwysigrwydd ystyried digwyddiadau mewn modd cyfannol yn hytrach nag fel achosion unigol. Roedd y pwyntiau hyn wedi bod yn arbennig o nodedig gan eu bod wedi'u nodi'n faterion yn yr ymchwil at wraidd y mater.
- 3.11 Diolchodd EW i HJJ am grynhof'r adroddiad a nodi'r canfyddiadau allweddol. Estynnodd EW gwahoddiad i Arweinydd Strategol y Comisiynydd ar gyfer Bregusrwydd rannu eu barn yng ngoleuni'r materion a drafodwyd. Cyfeiriodd PH at sylwadau'r Arolygiaeth ynglŷn â dioddefwyr mynych. Trafododd y bwrdd ymddygiadau troseddwy'r a phwysigrwydd sicrhau bod swyddogion yn nodi dwyster yr ymddygiad a'r buddsoddiad amser i stelcio a/neu aflonyddu. Pwysleisiodd PH bwysigrwydd cynnal lefel yr ymyrraeth, gan ymateb i ymddygiadau cynyddol gymhleth fel seiberstelcio ar yr un pryd.
- 3.12 Teimlai EW fod pedair thema allweddol yn deillio i'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd: hyfforddiant, cyfathrebu, cymorth ac ymyrraeth.
- 3.13 Estynnodd EW gwahoddiad i ACCJD fynegi ei farn am yr adroddiadau a gyflwynwyd. Nododd ACCJD fod yr heddlu yn blaenoriaethu gwelliannau pellach i fynd i'r afael â hyfforddiant a diwylliant. Rhoddodd ACCJD drosolwg o 'Ymgyrch Liberty' a'r newidiadau a gyflwynwyd yn dilyn adborth gan swyddogion a staff. Ers hynny, gwnaed buddsoddiad pellach mewn hyfforddiant. Er ei bod yn rhy gynnar i ni weld buddiannau hyn, roedd yn gam cadarnhaol tuag at sicrhau diwylliant cadarnhaol. Roedd cyflwyno pwyntiau cyswllt unigol hefyd wedi helpu i newid y diwylliant. Dywedodd ACCJD wrth y bwrdd fod cyfraddau boddhad uchel ymhlith dioddefwyr cam-drin domestig, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd y gwasanaeth, ond cydnabuwyd mai diffyg diweddariadau a diffyg cyfathrebu â dioddefwyr oedd y pryder parhaus.
- 3.14 Nododd LJ ei arsylwadau mewn perthynas â'r deipoleg sy'n gysylltiedig â stelcio ac aflonyddu, a'r dryswch yr oedd hyn yn ei achosi yn fewnol ac yn allanol. Gofynnodd LJ a oedd yr heddlu yn blaenoriaethu achosion o stelcio ac aflonyddu ac a oedd yn teimlo ei fod yn ymateb yn ddigonol iddynt. Nododd RL, ar lefel strategol, ei fod yn hyderus bod yr heddlu'n cydnabod bod stelcio ac aflonyddu yn flaenoriaeth, a'i fod yn gwella'r modd yr oedd hyn yn treiddio i blismona gweithredol. Nododd RL hefyd y galwadau cynyddol a oedd yn dod drwy 'ddrws ffrynt' y sefydliad a'r ymrwymiad i gefnogi swyddogion i ymateb i'r galwadau hyn.

- 3.15 Gofynnodd EW am ddisgrifiad o gyfrifoldebau'r pwyntiau cyswllt unigol stelcio ac aflonyddu a dealltwriaeth o'r hyfforddiant y maent yn ei gael i wella eu gwybodaeth yn y maes arbenigol hwn. Dywedodd JD wrth y bwrdd fod y pwyntiau cyswllt unigol wedi cael nifer o sylwadau yn y gynhadledd stelcio a gynhaliwyd yr hydref diwethaf, yn ogystal â hyfforddiant gan Gwnstabiliaeth Swydd Gaer. Roedd pwyntiau cyswllt unigol yn cyfarfod bob mis ac roeddent yn gyfrifol am raeadru'r wybodaeth i'w Hunedau Rheoli Sylfaenol. Eu prif nod oedd rhoi cyngor ac arweiniad tactegol. Awgrymodd EW y byddai'n fuddiol i'r pwyntiau cyswllt unigol gael mewnbwn gan seicolegydd ffrensig er mwyn parhau i feithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth. Cytunodd JD fod hyn yn bwynt dilys ac yn rhywbeth y gellid ei ystyried.
- 3.16 Awgrymodd HJJ y gellid gwneud mwy i hyrwyddo'r hyn y gallai pwyntiau cyswllt unigol ei gynnig i swyddogion a staff. Hefyd, ailbwysleisiodd HJJ ei sylwadau blaenorol mewn perthynas â rhannu gwersi a ddysgwyd o gyfarfodydd y gweithgor stelcio ac aflonyddu. Cyfeiriodd JD at y bwletin ar amddiffyn pobl agored i niwed, sef un o'r dulliau a oedd ar waith ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd. Nododd JD y sylwadau ychwanegol a chytunodd i siarad â chadeirydd y gweithgor.
- 3.17 Trafododd y bwrdd y pwysau ar y pwyntiau cyswllt unigol a chyfyngiadau'r rôl o ganlyniad i'r gofyniad i'w chyflawni yn ychwanegol at eu 'swydd feunyddiol'. Er bod pwyntiau cyswllt unigol yn frwdfrydig dros eu rôl, nid eu hunig gyfrifoldeb ydoedd. Ar hyn o bryd, roedd 18 o bwyntiau cyswllt unigol ar waith ar draws yr heddlu, ond roedd angen dwywaith y nifer hwn yn ddelfrydol er mwyn ateb y galw'n ddigonol.
- 3.18 Gofynnodd LJ a oedd yr heddlu'n teimlo ei fod yn nodi achosion o stelcio ac aflonyddu yn ystod y cyswllt cyntaf. Dywedodd CD wrth y bwrdd mai cyfrifoldeb y timau datrys digwyddiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar oedd datrys materion yn ystod y cyswllt cyntaf, a'u bod yn cael eu hystyried yn gam cadarnhaol o ran asesu risg a nodi achosion yn gynnar.
- 3.19 Trafododd EW bwysigrwydd mesur effaith yr hyfforddiant a roddwyd i swyddogion. Os oedd yr heddlu'n buddsoddi mewn pecynnau hyfforddi i wella sgiliau a gwybodaeth, roedd yn hollbwysig gwerthuso p'un a oedd yr hyfforddiant yn cael yr effaith ddymunol ai peidio. Nododd PA fod hyn yn cael ei fonitro'n bennaf drwy ymarferion hapsamplu digwyddiadau dyddiol ac wythnosol. Nod yr ymarferion hapsamplu hyn oedd nodi tueddiadau er mwyn gweld a oedd yr hyfforddiant yn cael effaith, a gellid rhannu ymarfer diweddar yn ymwneud â thua 50 o ddigwyddiadau ei rannu â thîm y Comisiynydd. Roedd EW yn awyddus i ystyried mesurau gwerthuso ychwanegol drwy gynnwys mesurau yn y model dysgu a datblygu.
- 3.20 Cwestiynodd HJJ gyfraddau canlyniadau stelcio Uned Reoli Sylfaenol y Gorllewin, a oedd yn isel iawn o gymharu â'r Unedau Rheoli Sylfaenol eraill. O ganlyniad i rai sylwadau yn yr adroddiad ymchwil at wraidd y mater am ddiffyg corfforaetholdeb posibl ar draws yr Unedau Rheoli Sylfaenol mewn perthynas â stelcio, nodwyd y gallai fod yn bwysig ystyried yr hyn a allai fod yn digwydd yn Uned y Gorllewin.

- 3.21 Arweiniodd hyn at drafodaeth ehangach am sut y caiff canlyniadau 'cadarnhaol' eu mesur pan na fydd y dioddefwr am gael canlyniad cyfiawnder troseddol o bosibl. Fodd bynnag, trafododd y bwrdd gyfraddau canlyniadau troseddau yn gyffredinol a'r anawsterau o ran adlewyrchu canlyniadau cadarnhaol yn unol â'r 22 o gategorïau canlyniadau a bennwyd gan y Gweinidog Cyfiawnder. Er bod cyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer stelcio ac aflonyddu yn isel ar gyfer yr heddlu yn ystadegol, roedd yr heddlu'n blaenoriaethau canlyniadau cadarnhaol yn seiliedig ar anghenion y dioddefwr, ac ystyriwyd ei bod yn bwysig parhau â'r drafodaeth genedlaethol ynghylch y ffordd orau o fesur canlyniadau.
- 3.22 Trafododd y bwrdd y gweithgarwch gwybodaeth busnes mewn perthynas â chysylltu NICHE, fel yr amlinellwyd yng nghynllun gweithredu'r strategaeth reoli. Dywedodd CD wrth y bwrdd fod yr heddlu wrthi'n ystyried sut i nodi risgiau a uwchgyfeiriwyd, a fyddai'n helpu'r broses o hysbysu swyddogion am risgiau drwy eu dyfeisiau wrth ymateb i ddiwyddiadau. Nod hyn hefyd oedd cysylltu â phrosesau adrodd trydydd partiön. Gofynnodd EW am i dîm y Comisiynydd gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. Hefyd, nododd JD fod y strategaeth reoli ar ei ffurf ddrafft ar hyn o bryd a bod gwaith yn mynd rhagddo i'w diweddarau, gan gynnwys diwygio'r sgoriau RAG. Gofynnodd EW a ellid cynnwys camau gweithredu o'r strategaeth cam-drin domestig hefyd.
- 3.23 Trafododd y bwrdd y materion parhaus yn ymwneud â diffyg diweddariadau a diffyg cyfathrebu â dioddefwyr. Dywedodd PA wrth y bwrdd fod y broses o reoli digwyddiadau wedi'i diwygio yn ddiweddar. Roedd y broses hon ar waith i nodi bylchau yn y cyswllt â dioddefwyr. wgrymodd CD fod pwysau cynyddol ar oruchwylwyr rheng flaen wedi cael effaith sylweddol ar amseroldeb diweddariadau i ddioddefwyr. Roedd hyn yn parhau i fod yn her wirioneddol i staff rheng flaen.
- 3.24 Cyfeiriodd JT at nifer y cwynion a gafwyd gan ddioddefwyr mewn perthynas â diffyg cyswllt/diweddariadau. Nododd JT bwysigrwydd newid y diwylliant, gan annog swyddogion i gadw mewn cysylltiad â dioddefwyr, p'un a oedd fawr ddim gwybodaeth newydd ai peidio. Roedd cwynion yn ymwneud â diffyg cyswllt yn creu mwy o waith, y gellid ei osgoi yn gyfan gwbl drwy gynnal cyfathrebu yn y lle cyntaf. Trafododd y bwrdd nifer y galwadau a gafwyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â dioddefwyr yn gofyn am ddiweddariad. O ganlyniad i 'MORSE', ni allai'r Ganolfan roi diweddariadau i ddioddefwyr am ymchwiliadau mwyach. Awgrymodd EW y byddai'n fuddiol i dîm y Comisiynydd adolygu'r cwynion a gafwyd mewn perthynas â diffyg diweddariadau, a'u cyswllt â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 3.25 Trafododd y bwrdd bryderon yn ymwneud â gwasanaethau a gomisiynwyd ar gyfer digwyddiadau stelcio ac aflonyddu nad ydynt yn gysylltiedig â cham-drin domestig. Fel rhan o'r broses o gyflwyno'r gorchymyn stelcio, roedd cyfle i gyfeirio troseddwy'r stelcio/aflonyddu sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig at lwybr, ond yn Ne Cymru, nid oedd unrhyw lwybr dargyfeirio ar gyfer achosion nad ydynt yn gysylltiedig â cham-drin domestig. Dywedodd EW fod angen codi hyn fel rhan o'r adolygiad rheoli troseddwy'r ar y cyd. Hefyd, roedd angen i'r heddlu fod yn hyderus i ddeall proffiliau troseddwy'r, er mwyn comisiynu gwasanaethau yn seiliedig ar angen.

3.26 Trafodwyd heriau rhannu negeseuon corfforaethol ar lefel weithredol a sut roedd ymrwymiad uwch-swyddogion yn cael ei roi ar waith yn ymarferol. Roedd yn glir y dylai corfforaetholdeb negeseuon fod yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau un safbwynt cyson ar draws yr heddlu mewn perthynas â stelcio, aflonyddu a rheolaeth drwy orfodaeth.

3.27 Daeth EW â'r eitem ar yr agenda i ben drwy grynhoi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

### **CAMAU GWEITHREDU**

- PA i rannu'r adroddiad ar y gwaith hapsamplu achosion o gam-drin domestig â thîm y comisiynydd.
- Rhoi diweddariad i dîm y Comisiynydd ynglŷn â'r pecyn gwybodaeth busnes i nodi risgiau a uwchgyfeiriwyd.
- Tîm y Comisiynydd i ymgymryd â gwaith hapsamplu mewn perthynas â chwynion yn ymwneud â dioddefwyr sydd wedi cysylltu â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus am ddiweddariadau.
- Ystyried sut y gellir ystyried proffiliau stelcwyr a throreddwyr nad ydynt yn gysylltiedig â cham-drin domestig drwy'r Cyd-adolygiad Rheoli Troreddwyr.
- Cydweithio â chadeirydd y gweithgor stelcio ac aflonyddu i nodi llwyfannau cyfathrebu perthnasol ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd.

3.28 Byddai tîm y Comisiynydd yn datblygu argymhellion eang yn dilyn y cyfarfod at wraidd y mater.

### **4. Brysbennu Iechyd Meddwl**

4.1 Estynnodd EW gwahoddiad i HJJ roi trosolwg o'i hadroddiad mewn perthynas â'r gwasanaeth brysbennu iechyd meddwl. Dywedodd HJJ wrth y bwrdd ei bod wedi siarad â thîm brysbennu'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o'r ymchwil a gasglwyd, er mwyn deall ei safbwyntiau ar weithrediad y gwasanaeth ac unrhyw faterion a oedd yn codi. Nodwyd bod yr ymarferwyr yn mwynhau'r rôl a'u bod yn teimlo ei bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

4.2 Nododd HJJ fod y tîm brysbennu yn teimlo y gellid gwella cyfathrebu am y gwasanaeth ar draws yr heddlu ac y gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r tîm. Hefyd, teimlwyd bod staff sy'n delio â galwadau yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus weithiau'n dewis rheoli galwadau yn ymwneud ag iechyd meddwl eu hunain os oeddent wedi cael hyfforddiant blaenorol ar iechyd meddwl. Gallai hyn arwain at golli cyfleoedd am fewnbwn proffesiynol.

4.3 Nododd HJJ bryderon penodol gan ymarferwyr yn ymwneud â diffyg ymgysylltu gan Uned Reoli Sylfaenol y Gogledd. Hefyd, roedd achosion ar lefel yr heddlu gyfan lle roedd swyddogion wedi bod yn anghwrtais i aelodau o'r tîm brysbennu.

- 4.4 Nodwyd bod ymarferwyr yn ymwybodol mai cynllun peilot ydoedd a'u bod yn ansicr o hyd ynghylch cynaliadwyedd y gwasanaeth.
- 4.5 Croesawodd EW sylwadau gan gydweithwyr yn yr heddlu. Dywedodd CD ei bod yn ymwybodol o faterion yn Uned Reoli Sylfaenol y Gogledd a dywedodd wrth y bwrdd fod trafodaethau wedi'u cynnal i wella hyn. Nododd CD fod cyflwyno'r gwasanaeth brysbennu yn newid mewn diwylliant i Uned y Gogledd, gan fod swyddogion yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ac yn dueddol o ddiwynnu ar bolisi 'drws agored' y tîm argyfyngau ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf.
- 4.6 Trafododd y bwrdd ffyrdd o annog swyddogion i fod yn ymwybodol o risg yn hytrach nag osgoi risg. Cytunodd y bwrdd y byddai'n fuddiol ystyried proses uwchygyfeirio efydd er mwyn sicrhau nad oedd swyddogion yn gwneud penderfyniadau yn annibynnol.
- 4.7 Trafododd y bwrdd gynaliadwyedd y gwasanaeth, yr oedd angen i lechyd fuddsoddi ynddo. Nodwyd bod yr ymchwil werthuso gan Brifysgol Abertawe ar ei ffurf ddrafft ar hyn o bryd. Roedd y canfyddiadau presennol yn dangos buddiannau clir i blismona. Roedd yr heddlu'n wynebu nifer o rwystrau i gael gafael ar ddata gan lechyd ar hyn o bryd. Gofynnodd EW am i ddiweddariad gael ei roi i dîm y Comisiynydd mewn perthynas â chaffael y data, ac awgrymodd y gellid uwchygyfeirio'r mater i'r Comisiynydd, i'w godi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona.
- 4.8 Trafododd y bwrdd amharodrwydd y sector iechyd i fuddsoddi yn y gwasanaeth brysbennu. Nododd HB y gallai'r amharodrwydd ddeillio o'r cynnydd tebygol yn y galw am wasanaethau iechyd, gan y byddai'r gwasanaeth brysbennu yn cyfeirio unigolion na fyddent o reidrwydd wedi cael eu nodi drwy'r timau argyfyngau. Awgrymodd EW fod angen sgysiau diplomatig â gwasanaethau lechyd er mwyn gwrthbwysu'r buddiannau iddynt.
- 4.9 Dywedodd EW wrth y bwrdd y byddai Llywodraeth Cymru yn cael dyraniad o gyllideb iechyd Llywodraeth y DU yn fuan. Yng ngoleuni'r agenda ymyrraeth gynnar, awgrymodd EW y byddai'n werth chweil cael sgysiau cynnar â swyddogion Llywodraeth Cymru cyn i'r gyllideb iechyd gael ei dyrannu, er mwyn canfod a ellid dyrannu cyllid i'r gwasanaeth brysbennu. Pwysleisiodd HD ei fod wedi bwriadu cael sgysiau â'r byrddau iechyd yn fuan er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth a'r staff yn y tîm. Cytunodd y bwrdd i fynd ati'n ddi-oed i ddrafftio papur cynnar i Lywodraeth Cymru.
- 4.10 Diolchodd EW i'r aelodau am eu sylwadau a'u safbwyntiau, a daeth â'r trafodaethau i ben drwy nodi'r camau gweithredu a oedd yn deillio i'r drafodaeth.

## CAMAU GWEITHREDU

- Ystyried opsiynau ar gyfer rhannu penderfyniadau swyddogion cymorth yn seiliedig ar gyngor gan staff y gwasanaeth brysbennu
- Rhannu ymchwil werthuso gan Brifysgol Abertawe â thîm y Comisiynydd.

- Uwchgyfeirio'r mater yn ymwneud ag argaeledd data ar Iechyd i'r Comisiynydd ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona.
- Cyflwyno papur cynnig drafft mewn perthynas â sicrhau cyllid ar gyfer y gwasanaeth brysbennu i Lywodraeth Cymru (yn seiliedig ar ymchwil werthuso gan Brifysgol Abertawe).

## **5. Unrhyw Fater Arall**

- 5.1 Atgoffodd LJ y Bwrdd y byddai is-gyfarfod ar droseddau cyllid yn cael ei drefnu yn fuan. Cytunodd PA y byddai'n bwynt cyswllt ar gyfer hyn gyda thîm y Comisiynydd.
- 5.2 Dywedodd HB wrth y bwrdd fod yr ap iechyd bellach wedi bod yn destun profion maes. Roedd rhai materion yn ymwneud â geo-fapio, y byddai angen eu datrys. Hefyd, dywedodd HB ei bod hi a chydweithwyr yn yr heddlu wedi cael gwahoddiad i gyflwyno'r ap mewn Cynhadledd Genedlaethol ym mis Medi. Trafododd y bwrdd y ffaith nad oedd Heddlu De Cymru yn berchen ar yr hawliau ar gyfer yr ap ac mai rhyngwyneb 'IPatrol' ydoedd. Felly, roedd yn bwysig sicrhau bod 'IPatrol yn cytuno i'r ap gael ei gyflwyno yn y gynhadledd. Hefyd, nododd EW ei phryderon ynglŷn â'r ffaith y byddai'r ap yn cael ei arddangos tra ei fod yn dal i fod yn destun profion maes.
- 5.3 Dywedodd JT wrth y bwrdd y byddai diwygiadau uniondeb yr heddlu yn mynd yn fyw ym mis Ionawr ac y byddai'n werth chweil trafod y newidiadau hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- 5.4 Gofynnodd EW am i adroddiadau'r bwrdd gael eu cyflwyno i dîm y Comisiynydd ar amser, gan y gallai oedi arwain at oedi cyn dosbarthu'r papurau terfynol.
- 5.5 Diolchodd EW i bawb am eu hamser a chadarnhaodd y byddai argymhellion terfynol y cyfarfod at wraidd y mater yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod uwchgyfeirio nesaf.